



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------


Genesis 19: 1-29




- 1 Roedd Lot, nai Abraham, wedi dewis byw yn Sodom. Roedd pobl Sodom yn ddrwg iawn. Dyma ddau angel yn mynd i Sodom pan oedd hi'n dechrau nosi. (Roedden nhw wedi ymweld ag Abraham cyn hyn).




- 2 Roedd yr angylion yn edrych fel dynion.




- 3 Roedd Lot yn eistedd wrth giât y ddinas. Pan welodd Lot nhw, cododd i'w cyfarch, ac ymgrymu â'i wyneb ar lawr o'u blaenau nhw. "Fy meistri," meddai wrthyn nhw, "plis dewch draw i'm tŷ i. Cewch aros dros nos a golchi eich traed. Wedyn bore fory cewch godi'n gynnar a mynd ymlaen ar eich taith."



-
- 4 Ond dyma nhw'n ei ateb, "Na. Dŷn ni am aros allan ar y sgwâr drwy'r nos." Ond dyma Lot yn dal ati i bwysu arnyn nhw, ac yn y diwedd aethon nhw gydag e i'w dŷ. Gwnaeth wledd iddyn nhw, gyda bara ffres oedd wedi ei wneud heb furum, a dyma nhw'n bwyta.




-
- 5 Cyn iddyn nhw setlo i lawr i gysgu, dyma ddynion Sodom i gyd yn cyrraedd yno ac amgylchynu'r tŷ. A dyma nhw'n galw ar Lot, "Ble mae'r dynion sydd wedi dod atat ti heno? Tyrd â nhw allan yma i ni gael rhyw gyda nhw."



-
- 6 Ond dyma Lot yn mynd allan at y dynion, ac yn cau'r drws tu ôl iddo. "Dw i'n pledio arnoch chi, ffrindiau, plŷs peidiwch gwneud peth mor ddrwg."



-
- 7 Ond dyma'r dynion yn ei ateb, "Dos o'r ffordd! Un o'r tu allan wyt ti beth bynnag. Cei di hi'n waeth na nhw gynnnon ni!" Dyma nhw'n gwthio yn erbyn Lot, nes bron torri'r drws i lawr. Ond dyma'r dynion yn y tŷ yn llwyddo i afael yn Lot a'i dynnu yn ôl i mewn a chau y drws. A dyma nhw'n gwneud i'r dynion oedd y tu allan gael eu taro'n ddall. Roedden nhw'n methu dod o hyd i'r drws.




-
- 8 Gofynnodd y dynion i Lot, "Oes gen ti berthnasau eraill yma? Dos i'w nôl nhw a gadael y lle yma, achos dŷn ni'n mynd i ddinistrio'r ddinas."



-
- 9 Felly dyma Lot yn mynd i siarad â'r dynion oedd i fod i briodi ei ferched. "Codwch!" meddai, "Rhaid i ni adael y lle yma. Mae'r ARGWLWYDD yn mynd i ddinistrio'r ddinas." Ond roedden nhw yn meddwl mai cael sbort oedd e.




-
- 10 Ben bore wedyn gyda'r wawr dyma'r angylion yn dweud wrth Lot am frysio, "Tyrd yn dy flaen. Dos â dy wraig a'r ddwy ferch sydd gen ti, neu byddwch chithau'n cael eich lladd pan fydd y ddinas yn cael ei dinistrio!" Ond roedd yn llusgo'i draed, felly dyma'r dynion yn gafael yn Lot a'i wraig a'i ferched, a mynd â nhw allan o'r ddinas.



-
- 11 Dwedodd yr angylion wrthyn nhw, "Rhedwch am eich bywydau. Peidiwch edrych yn ôl, a peidiwch stopio nes byddwch chi allan o'r dyffryn yma. Rhedwch i'r brynïau, neu byddwch chi'n cael eich lladd."



-
- 12 Ond dyma Lot yn ateb, "Mae'r bryniau acw'n rhy bell. Alla i byth gyrraedd mewn pryd. Edrych, mae'r dre fach acw'n ddigon agos. Gad i mi ddianc yno. Mae'n lle bach, a bydda i'n cael byw." "Iawn," meddai'r angel, "wna i ddim dinistrio'r dref yna. Brysya felly. Dianc yno. Alla i wneud dim byd nes byddi di wedi cyrraedd yno." A dyna pam mae'r lle yn cael ei alw yn Soar. (Ystyr Soar yw bach).



-
- 13 Erbyn i Lot gyrraedd Soar roedd hi wedi dyddio. A dyma'r ARGLWYDD yn gwneud i dân a brwmstan syrthio o'r awyr ar Sodom a Gomorra. A dyma wraig Lot yn edrych yn ôl a sylu ar beth oedd yn digwydd, a cafodd ei throi yn golofn o halen.



-
- 14 Arbedwyd bywydau Lot a'i ferched am eu bod wedi dianc i Soar.



-
- 15 Yn gynnar y bore wedyn edrychodd Abraham i lawr ar y dyffryn ac i gyfeiriad Sodom a Gomorra a gweld y mwg yn codi o'r tir fel mwg o ffwrnais. Ond pan ddinistriodd Duw drefi'r dyffryn, roedd wedi cofio beth oedd wedi ei addo i Abraham. Roedd wedi achub Lot o ganol y dinistr



16 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



17



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed
by FreeBibleImages for free download under the terms of the
Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
